

Systemau porthiant gwahanol ar gyfer tir

A yw cymysgedd gwahanol o hadau yn fwy addas i ardaloedd glawiad uchel, ansawdd pridd isel a systemau â mewnbwn isel na chymysgedd rhygwellt/meillion safonol.

Cymysgedd aml rywogaeth		
Amrywiaeth	Math o Amrywiaeth	Kg/Erw
AberPaddock	Peiswellt y waun	1
Presto	Rhonwellt	1
AberZeus	Rhygwellt parhaol Diploid Canolig	2
AberLee	Rhygwellt parhaol Diploid Hwyr	4
AberGain	Rhygwellt parhaol Tetraploid hwyr	2
AberPasture	Cymysgedd Meillion Gwyn	1
AberChianti	meillion coch - AberPasture	0.5
AberClaret	meillion coch – AberChianti	0.5
AberNiche	Festulolium	2
Tonic	Llyriaid	0.6
Puna II	Ysgellog parhaol	0.4

Cymysgedd rhygwellt/meillion gwyn		
Amrywiaeth	Math o Amrywiaeth	Kg/Erw
AberChoice	Rhygwellt lluosflwydd diploid hwyr	3
AberWolf	Rhygwellt lluosflwydd diploid canolig	2
AberGain	Rhygwellt lluosflwydd tetraploid hwyr	3
AberZeus	Rhygwellt lluosflwydd diploid canolig	3
AberBite	Rhygwellt lluosflwydd tetraploid hwyr	2
Presto	Rhonwellt	1
AberPasture	Meillion gwyn canolig	1

Canfyddiadau allweddol hyd yn hyn (Chwefror i Dachwedd 2019)

- Mae'r cyfanswm deunydd sych a gofnodwyd dan y cewyll yn dangos mwy o allbynnau o'r gwndwn aml-rywogaeth ar ddwy fferm. Ond fel cyfartaledd ar gyfer y prosiect, 4% yn unig yw'r cynnydd mewn cynhyrchiant deunydd sych ar y gwyndonnydd aml-rywogaeth. Roedd pob un o'r safleoedd yn tyfu mwy o borthiant yn y gwanwyn a'r hydref ar y gwyndonnydd aml-rywogaeth.

Cynhyrchiant deunydd sych (kgDM/ha)			
	Cymysgedd rhygwellt/meillion gwyn	Cymysgedd aml rywogaeth	Percentage difference
Gellifeddgaer	8807	11160	30%
Gilfach	9152	9283	8%
Brynychwith	8412	6859	-23%

Noder: Rhagwelir mai amodau pridd salach a gwlypach ar fferm Brynychwith, ynghyd â llai o sylw i uchder y borfa sy'n gyfrifol dros gynhyrchu llai o ddeunydd sych (DM) yn y gwndwn aml-rywogaeth. Cafodd toriad silwair ei gynaeafu ar y ddwy lain ar fferm Gilfach ym mis Mehefin, ac mae'n bosibl mai dyma'r rheswm dros lai o gynhyrchiant DM o'i gymharu â fferm Gellifeddgaer.

- Roedd perfformiad anifeiliaid ar y gwndwn aml-rywogaeth cystal, ac weithiau yn well na'r darn rheoli. Cofnododd Gilfach gyfraddau tyfu o **119g/dydd** ar y darn rheoli mewn cymhariaeth â **125g/dydd** ar y gwndwn aml-rywogaeth dros gyfnod o 4 wythnos. Cofnododd Gellifeddgaer fwy o wahaniaeth o **188g/dydd** ar y darn rheoli a **212g/dydd** ar y gwndwn aml-rywogaeth (gwelliant o 13%).
- Nodwyd y ffermwyr bod perfformiad yr ŵyn yn gwella y hiraf yr oeddent yn pori ar yr gwndwn llysiuol – gan awgrymu y gallai fod cyfnod ymaddasiad
- Byddwn yn parhau i fonitro'r glaswellt yn 2020 i asesu cynhyrchiant ac ansawdd y borfa yn ogystal â pherfformiad anifeiliaid.

Y broblem: Mae tirweddau Cymru yn amrywiol iawn o ran ansawdd pridd a'i ffrwythlondeb. Bydd deall effeithiolrwydd cyfansoddiad gwahanol fathau o wndwn yn caniatáu dull mwy effeithlon, wedi ei dargedu o hau glaswellt mewn tir ymylol.

Y prosiect: Ar ddiwedd haf 2018 rhannwyd cae 4-5 ha ar bob fferm yn ddau a'i ail-hadu gyda 50% gwndwn rhywogaethau amrywiol a 50% gwndwn rhygwellt a meillion gwyn (plot rheoli). Bydd y prosiect yn asesu'r canlynol:

- llwyddiant wrth sefydlu
- cynhyrchu porthiant a'i ansawdd
- perfformiad stoc
- gwytnwch y gwndwn
- poblogaeth o greaduriaid di-asgwrn-cefn

Mae'r prosiect yn parhau hyd Ragfyr 2020.

Safleoedd treialu: Tair fferm ucheldir ger Pen-y-bont ar Ogwr – Gellifeddgaer, Gilfach a Bryn Chwith. Mae'r caeau yn y cynllun treialu rhwng 100m – 260 m o ran uchder.



“Llyriaid oedd y rhywogaeth fwyaf dominyddol yn y gwndwn aml-rywogaeth gydag ysgellog i'w weld mewn niferoedd bychain, ac nid yw'r meillion coch wedi llwyddo i sefydlu. Trwy arbrofi gyda chymysgeddau gwahanol, bydd ffermwyr yn gweld ymhen amser yr hyn sy'n gweithio ar eu ffermydd a'r hyn sy'n llai llwyddiannus. Gobeithio y bydd y prosiect hwn yn gwella ein dealltwriaeth o wyndonnydd aml-rywogaeth ac yn dangos y dylid eu hystyried fel opsiwn wrth ail-hadu.”

Chris Duller, arbenigwr pridd a glaswelltir